# Adroddiad Blynyddol 2018/19

# Cyng. Elfed W Williams

# Plaid Cymru

# Ward Deiniolen



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- 'Rwyf mewn cyswllt cyson gyda'r Adran Priffyrdd er mwyn delio gyda thyllau yn y ffordd, ac erbyn hyn mae gweithwyr y Cyngor yn mynd o gwmpas ardal Arfon yn llenwi'r tyllau gwaethaf
- Yn dilyn y pryderon a godwyd am y newid yn amserlen Gwasanaeth Bws 83 a 85, llwyddais i ddwyn perswâd ar Swyddogion y Cyngor i newid peth o'r amserlen bws er mwyn cael gwasanaeth sydd yn fwy addas i anghenion pobl leol
- Bu i'r Clwb Ieuenctid ail-agor mis Mawrth eleni gyda gwirfoddolwyr yn rhedeg y Clwb - heb y gwirfoddolwyr hyn, ni fyddai modd cynnal y Clwb
- Trefnais i Gyngor Gwynedd glirio'r sbwriel oedd ym maes parcio Tabernacl, yn dilyn achlysur o waredu sbwriel slei bach - gobeithio y bydd y maes parcio yn cael ei barchu a'i gadw yn dwt o hyn ymlaen
- Bu i'r Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd drefnu i lenwi y biniau halen eto eleni
- Bum mewn cyfarfod gyda Swyddogion o Gartrefi Cymunedol Gwynedd ynghylch plannu blodau yn y Pentref - edrychaf ymlaen at weld beth fydd y camau nesaf
- Mae arwyddion bellach wedi eu gosod yn annog pawb i ddefnyddio'r biniau priodol ar gyfer baw ci - hyderaf y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol
- Gallaf gadarnhau bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi cytuno i ariannu cysgodfa newydd i'r clinig - edrychaf ymlaen at ei gweld yn ei lle
- 'Rwyf yn Ysgrifennydd Carnifal Deiniolen

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

| | |
|---|---|
| Delio gyda'r Wasg | 19/03/2019 |
| Tai Teg - Pa Gynlluniau Sydd ar Gael | 20/02/2019 |
| Gofalu am ein Hamgylchedd | 28/11/2018 |
| YGC : Effaith Newid Hinsawdd ar Gymunedau Gwynedd | 21/11/2018 |
| Rhiantu Corfforaethol | 19/09/2018 |
| Diogelu Plant ac Oedolion (2018) | 19/09/2018 |
| Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol) | 27/06/2018 |
| Buddsoddi yng Ngwynedd | 23/05/2018 |